CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Iau 3ydd o Rhagfyr 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Julie Charlton
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Llinos Davies, Enid Cole, Ceirwyn John.
Cynghorydd Sir:
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Yn absenoldeb y Cadeirydd Lon Davies fe gymerodd yr Is- Gadeirydd Julie Charlton gofal y Cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Cyng. Lon Davies

Cofnodion 03.11.15.
Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
77. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. a Mrs. Liam Morris, Pentre, Ffynnongroes. LLythyr o ddiolch wedi ei dderbyn am y gefnogaeth maent wedi cael wrth y Cyngor Cymuned.

Gohebiaeth
78. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mrs. Patricia Fox Tre-Allt, Eglwyswrw – Cais ar gyfer annedd tri ystafell wely a garej dwbwl. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
79. Newidiadau yn eich casgliad gwastraff dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd – Fe fydd y gwybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
80. Cyfanswm yn y banc 25.11.15 - £3,272.78
81 Cyngor Iechyd Cymuned – Fe fydd y wybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
82. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. I . Nicholls, Penfeidr, Brynberian – Mae'r cais wedi ei gadarnhau
83. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. M. Watkins, Trewern. Felindre Farchog – Llythyr I ddweud bod ddim eisiau cadarnhad wrth y cyngor ar gyfer y cais o godi sied ar gyfer offer.
84. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. M. Watkins, Penpedwast, Eglwyswrw – Llythyr I ddweud bod ddim eisiau cadarnhad wrth y cyngor ar gyfer y cais o trwsio lon bresennol.
85. Gwybodaeth oddi wrth Iechyd Hywel Dda – Fe fydd y wybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
86. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gwybodaeth diweddaraf ar ceisiadau cynllunio – Fe dosbarthwyd y wybodaeth yma I pawb.

Unrhyw Fater arall
87. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr A Miss A & A Hilger a Christof, Glanyrafon Uchaf, Brynberian. Llythyr I ddweud bod y cais er mwyn cael estyniad or cais gwreiddiol wedi dderbyn.

88. Cyngor Sir Benfro – Rhowch eich Barn ar Cynilo 2016 -2019- Fe dosbarthwyd y wybodaeth yma I pawb a gofynwyd I pawb cwbwlhau un copi ai ddanfon yn ol I'r Cyngor Sir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 5ed o Ionawr am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 8.30y.h.